SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol [Lle rhoddwyd rhybudd]

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy**

11 Mawrth 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 0300 062 8163 |
| **Ebost**: | agic@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 0300 062 8387 |
| **Gwefan**: | www.hiw.org.uk |



ISBN digidol 978-1-4734-3845-3


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 8

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 9

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 11

6. Y Camau Nesaf ........ 12

   Atodiad A ........ 13

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rhaeadr Gwy yng Nghanolfan Adnoddau Hafan, Maes Y Deri, Rhaeadr Gwy LD6 5DG, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, ar 11 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*:*Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

---

[1]Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
[www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438](http://www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438)

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Rhaeadr Gwy, canol Powys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, pedair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prostheteg
- Rhywfaint o ddeintyddiaeth gosmetig
- Gwynnu dannedd
- Gorchudd dannedd
- Gorchudd nos
- Corunau porslen / corunau aur
- Argaenau
- Triniaeth ataliol a thriniaeth beriodontol.

Mae Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. O ystyried hyn, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Ar y cyfan, gwelsom nifer o ganfyddiadau cadarnhaol yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom un argymhelliad lle mae angen cymryd camau gweithredu ar unwaith, ac maent wedi mynd i'r afael ag ef. Fel arall, dim ond un argymhelliad a wnaed ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Dywedodd y cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Roedd y cleifion y gwnaethant ymateb i'n holiadur wedi bod yn gleifion y practis ers rhwng chwe mis a deng mlynedd.

Gwelsom safon uchel a chyson o gofnodi yn nodiadau'r cleifion, a oedd yn dangos bod y driniaeth a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n dda.

Gwelsom fod y practis yn pwysleisio bod yr holl staff yn dilyn yr un gweithdrefnau dadheintio'n ofalus, a bod proses effeithiol o reoli heintiau ar waith gan nyrs ddeintyddol arweiniol.

Roedd gan y practis systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw offer radiograffeg.

Gwelsom ni (AGIC) dîm bach, cydlynol yn y practis, a thystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y prif ddeintydd/rheolwr y practis.

Roedd adeilad ac amgylchedd y practis yn lân ac yn ffafriol ar gyfer darparu gofal cleifion diogel, ac roedd mynediad da a gwastad iddo.

Ar y cyfan, mae'r arolygiad hwn yn nodedig gan mai prin yw'r gwelliannau sydd eu hangen, ac mae hyn yn gyson â phractis sy'n defnyddio dull rhagweithiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion yn unfrydol wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Roedd y cleifion y gwnaethant ymateb i'n holiadur wedi bod yn gleifion y practis ers rhwng chwe mis a deng mlynedd.**

Ein prif ddull o gasglu barn y cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddosbarthu holiaduron wedi'u hargraffu ymlaen llaw i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd ugain ohonynt.

Roedd yr adborth y gwnaethom ei dderbyn yn gadarnhaol iawn; mewn gwirionedd, nid oedd unrhyw ymatebion negyddol.  Rhoddwyd caniatâd inni gan y rhai a ymatebodd i'n holiadur ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddent wedi'i rhoi inni. Rydym wedi cynnwys sampl o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd isod:

> *"Mae'r deintydd wastad yn gyfeillgar iawn ac yn groesawgar, fel staff y dderbynfa."*
>
> *"Wastad yn ddi-boen!"*
>
> *"Rydw i'n hollol gysurus wrth ymweld â'r ddeintyddfa hon."*

Dywedodd cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oedi hir wrth aros am eu hapwyntiad.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith, ac roedd hon yn amlinellu'r cyfnodau amser y byddai'r practis yn ceisio cadw atynt wrth ymdrin ag unrhyw bryderon/cwynion. Dywedwyd wrthym fod pryder a fynegwyd tua thair blynedd yn ôl wedi cael ei ddatrys, ond bod dim byd ers hynny. Ni welsom y cofnodion a oedd yn gysylltiedig â hyn.

Dangoswyd nifer o gardiau a llythyron diolch inni gan gleifion diolchgar, yr oedd y practis wedi'u derbyn a'u cadw.

Gwnaethom eu cynghori i ddechrau casglu'r holl bryderon a'r holl gwynion mewn un man, mewn ffeil ysgrifenedig neu electronig, a gwnaethant gytuno i wneud hyn.

Gwnaethom nodi bod poster cwyno yn y brif dderbynfa, a oedd yn rhoi manylion i'r cleifion am sut i leisio pryder. Gan fod y practis yn darparu gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat, roeddent yn defnyddio gweithdrefn

gwyno ar wahân ar gyfer y ddau. Roedd angen diwygio'r ddwy weithdrefn er mwyn nodi’n gywir bod AGIC yn bwynt cyswllt pe bai cwyn gan glaf deintyddol preifat, ac er mwyn i weithdrefn y GIG gyfeirio'r cleifion yn gywir at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Eto, gwnaethom drafod hyn yn ystod yr arolygiad a chytunodd y practis i wneud hyn.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Gwelsom safon uchel a chyson o gofnodi yn nodiadau'r cleifion, a oedd yn dangos bod y driniaeth a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n dda.**

**Gwelsom fod y practis yn pwysleisio bod yr holl staff yn dilyn yr un gweithdrefnau dadhentio'n ofalus, a bod proses effeithiol o reoli heintiau ar waith gan nyrs ddeintyddol arweiniol.**

**Roedd gan y practis systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw offer radiograffeg.**

Gwnaethom arolygu wyth cofnod cleifion yn ystod yr arolygiad hwn; pum cofnod y prif ddeintydd a thri chofnod y deintydd arall. Gwelsom fod yr ansawdd a'r manylion a gofnodwyd o safon uchel yn gyson. Mewn gwirionedd, roeddem o'r farn bod y cofnodion a welsom o safon nodedig, ac ni welsom unrhyw fylchau neu wybodaeth a oedd ar goll. Mae maint y manylion sy'n cael eu cofnodi yn y nodiadau'n dangos bod y practis deintyddol hwn yn ymdrechu i ddarparu lefelau uchel o ofal ataliol i'w gleifion.

Gwelsom fod system glir iawn ar waith ar gyfer dadheintio, ac roeddem yn fodlon ar ddiogelwch y system a welsom. Gwelsom fod y deintyddfeydd a'r ystafell ddadheintio'n lân iawn.

Roedd un o'r nyrsys deintyddol wedi'i henwebu fel arweinydd rheoli heintiau, a gwelsom gofnodion o achlysuron lle roedd wedi arsylwi ar nyrsys deintyddol eraill yn dadheintio offer, i sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau'n gywir. Roeddem o'r farn bod yr oruchwyliaeth hon o safonau yn enghraifft arall o arfer nodedig.

Roedd rhestr wirio ddyddiol ar gyfer cyflenwi'r ddeintyddfa a'i chadw'n lân yn cael ei harddangos yn glir ac yn amlwg yn cael ei defnyddio. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o reoli heintiau ac yn gweithredu'n brydlon i gywiro unrhyw bryderon a nodwyd.

Roedd dogfennau i ddangos eu bod yn defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel o ddydd i ddydd.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom ni (AGIC) dîm bach, cydlynol yn y practis, a thystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y prif ddeintydd/rheolwr y practis.**

Y prif ddeintydd oedd rheolwr y practis hefyd. Roedd y tîm a oedd yn cynnwys dau ddeintydd, pedair nyrs ddeintyddol a derbynnydd wedi gweithio yno ers sawl blwyddyn, ac roedd trosiant y staff yn isel iawn. Gwelsom dîm bodlon a chydlynol, systemau wedi'u sefydlu'n dda a swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.

Er i'r staff ddweud wrthym eu bod yn gallu trafod materion o ddydd i ddydd, a'u bod yn gwneud hyn yn aml, roeddent hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff ffurfiol a rheolaidd. Gwelsom y llyfr lle roedd cyfarfodydd y staff a chofnodion y cyfarfodydd yn cael eu dogfennu.

Roedd ffeiliau hyfforddiant yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a thystysgrifau. Roedd yr holl staff wedi cael eu hyfforddi'n ddiweddar mewn adfywio cardio-pwlmonaidd a gweithdrefnau brys.

Nid oedd system ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol, lle y gallai anghenion datblygu gael eu trafod a'u cynllunio. Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd i gyflwyno system arfarnu ar gyfer yr holl staff, gan sicrhau bod yr arfarniadau'n cael eu dogfennu, eu dyddio a'u llofnodi.

***Argymhelliad***

***Sefydlu system ar gyfer arfarniadau blynyddol i'r holl staff.***

Gwelsom gofnodion cynnal a chadw ar gyfer rhywfaint o'r offer a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis; roeddent yn gyfredol ac roedd cofnodion yn drefnus ac yn eglur. Roedd trefniadau eglur ar waith i sicrhau bod offer yn cael eu gwasanaethu a'u profi yn unol ag amserlenni diogelwch. Ar hyn o bryd, mae'r adeilad yn cael ei brydlesu gan y cyngor lleol ac mae busnesau eraill yn defnyddio rhai o'r ystafelloedd i fyny'r grisiau. Fodd bynnag dywedwyd wrthym y gallai hyn newid yn y dyfodol, lle bydd angen i'r practis deintyddol fod yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw.

Roedd llyfr damweiniau a gedwir gan y derbynnydd ar gael, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn holi am gymorth iechyd galwedigaethol gan y bwrdd iechyd lleol, lle bo'r angen.

Gwnaethom gyfathrebu â'r practis yn uniongyrchol ar ôl ein harolygiad oherwydd inni nodi nad oedd un deintydd wedi cael ei gofrestru gydag AGIC ar gyfer darparu gofal deintyddol preifat. Ymatebodd y practis yn brydlon ac rydym yn fodlon ei fod yn ymdrin â hyn yn briodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd adeilad ac amgylchedd y practis yn lân ac yn ffafriol ar gyfer darparu gofal cleifion diogel ac roedd mynediad da a gwastad yno.**

Mae'r practis yn cael ei redeg yn un o adeiladau’r awdurdod lleol, ar gyrion tref Rhaeadr Gwy. Roedd digon o leoedd i barcio y tu allan i’r adeilad. Roedd y prif ddrws yn ddrws awtomatig, roedd toiledau ar gyfer pobl anabl y tu mewn, roedd yr holl fannau cleifion ar y llawr daear, ac roedd y mynediad yn dda ac yn wastad. Nid oedd drws y ddeintyddfa'n awtomatig ond dywedodd y staff wrthym eu bod yn adnabod eu cleifion, a'u bod yn gallu rhagweld fel arfer pe bai angen iddynt agor y drws hwn i rywun sy’n mynychu’r practis.

Roedd y practis yn daclus, heb annibendod, ac roedd yn amlwg yn lân, gan gynnwys yr ardaloedd nad oedd y cleifion yn eu defnyddio. Y derbynydd a’r staff nyrsio deintyddol sy'n gyfrifol am lanhau'r holl bractis, a dangosodd y safonau a welsom eu bod yn amlwg yn ymfalchïo yn y gwaith o gynnal a chadw eu hamgylchedd.

Mae'r holl gofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau dan glo.

Roedd rhai posteri'n dangos gwybodaeth ddefnyddiol ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros, ac roedd rhywfaint o daflenni ar gael yn y dderbynfa.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Rhaeadr Gwy

## Dyddiad yr arolygiad: 11 Mawrth 2015

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 9 | Sefydlu system ar gyfer arfarniadau blynyddol i'r holl staff. | Mae system arfarnu eisoes ar waith, ers 2008. Bydd yn cael ei diweddaru'n flynyddol ar gyfer pob aelod o staff o 1 Ebrill 2015 ymlaen. | Dr Jimmy Charro | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis: Dr J Charro**

**Enw (llythrennau bras): .......Jimmy Charro...........................................................................**

**Teitl: .........Dr.................................................................................................**

**Llofnod: ....J Charro..........................................................................................**

**Dyddiad: ....16/4/15............................................................................................**